

DAVIES, JAMES ('Iaco ab Dewi'; 1648 - 24 Medi 1722), cyfieithydd, copiwr a chasglwr llawysgrifau

Enw: James Davies

Ffugenw: Iaco ab Dewi

Dyddiad geni: 1648

Dyddiad marw: 24 Medi 1722

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cyfieithydd, copiwr a chasglwr llawysgrifau

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Garfield Hopkin Hughes

Y mae dwy dystiolaeth gyfoes i'w hanes, y naill gan [Moses Williams](#) yn ei *Repertorium Poeticum*, a'r llall gan [Christmas Samuel](#) yn llyfr eglwys Panteg (N.L.W. MS. 12362). Fe'i ganed yn Llandysul, daeth o dan ddylanwad [Stephen Hughes](#), a bu'n aelod gyda'r Annibynwyr ym Mhencader. Rywdro cyn 1700 collodd ei holl eiddo trwy dân - cyfeiria at hyn yn ei benillion - ac y mae tystiolaeth iddo fyw ym Mhenllyn dros dro cyn dychwelyd i Lanllawddog yn Sir Gaerfyrddin. Cofnodir ei gladdu yno 27 Medi 1722. Y mae digon o awgrymiadau mai beichus oedd ei flynyddoedd olaf gan dlodi ac afiechyd. Diau y dylid gwrthod y traddodiad mai nai iddo oedd [Siôn Rhydderch](#) yr almanaciwr.

Fel copiwr a chasglydd llawysgrifau y mae iddo'r bri pennaf, a bu dylanwad [Edward Lhuyd](#) yn amlwg ar ei yrfa. Dylid cofio hefyd am ganolfannau pwysig yn ei ardal ef ei hun, fel llyfrgell [William Lewes](#) o'r Llwynderw. Cafwyd cylch o gopiwr yn Sir Gaerfyrddin yn ddiweddarach, oll o dan ddylanwad 'Iaco ab Dewi' - William Bona o Lanpumpsaint; David Richards, curad Llanegwad; a [Ben Simon](#) o Abergwili. Aeth rhai o'i lawysgrifau i feddiant [Siôn Rhydderch](#) ac, ar ei ôl ef, i [Lewis Morris](#). Dylid pwysleisio ei dymer feirniadol pan oedd yn llunio'r testunau, a nodi bod tystiolaeth mai copiwr proffesedig oedd, yn llunio llawysgrifau dros eraill, ac yn crwydro'r wlad, megis i lyfrgell enwog Pen y Benglog yn Sir Benfro, i gasglu ei ddefnyddiau. Y prawf gorau o bwysigrwydd ei waith yw fod ganddo ef a [Samuel Williams](#) yn Llanstephan MS. 133 nifer mawr o gerddi nad oes copi ohonynt yn yr un llawysgrif arall. Gwyddai [Iolo Morganwg](#), trwy ei gyfaill [Tomos Glyn Cothi](#), am beth o lawysgrifau Iaco ab Dewi, ond twyllodrus yw rhai o'i honiadau amdano.

Tystiai [Moses Williams](#) i Iaco ab Dewi gynorthwyo [Stephen Hughes](#) i gasglu penillion y [Ficer Prichard](#), ac y mae'n sicr y byddai hefyd yn casglu 'hen benillion,' etc., oddi ar lafar. Y mae'n bur debyg mai ef oedd golygydd y *Flores Poetarum Britannicorum* (1710). Nid yw ei ychydig gerddi yn bwysig ond i'r graddau y datguddiant ychydig ar dlodi a phruddglwyf ei fywyd ei hun, ac y dangosant ef yn efelychu gwaith rhai o'r beirdd y bu'n copio eu cerddi, fel yn ei gywydd 'Molawd i'r Iesu.' Yr oedd copi o ramadeg y beirdd ymhlith ei lawysgrifau. Y mae'n amlwg nad ymboenodd ddim â baledi a cherddi poblogaidd ei ardal; a chysylltiad damweiniol yn unig sydd rhyngddo ag eisteddfodau'r cyfnod.

Er cynhaliath iddo ei hun yn ei dlodi, ebe [Moses Williams](#), y troes 'Iaco' yn gyfieithydd, a chafodd ei noddi yn ei waith gan rai o foneddigion ac Anghydfurfwyr Sir Gaerfyrddin. Cyhoeddwyd ei wyth gyfieithiad rhwng 1714 a 1730. Yr hynotaf ohonynt yw *Cyfeillach Beunyddiol â Duw* (1714), a'r enwocaf yw *Meddylieu Neillduol ar Grefydd* (1717). Y mae'n bosibl mai 'Iaco ab Dewi' oedd un o'r pedwar a fu, yn ôl [Stephen Hughes](#), yn cyfieithu *Taith neu Siwrnai y Pererin* (1688), ond nid oes un arwydd o hynny yn y llyfr.

Awdur

Garfield Hopkin Hughes, (1912 - 1969)

Ffynonellau

G. H. Hughes, *Iaco ab Dewi. 1648-1722, etc* (Caerdydd 1953)

John Davies, *Bywyd a Gwaith Moses Williams, (1685-1742)* (1937)

Y Cofiadur, iv, 1926

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, iii, 51-5

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*

Gweithiau

George Webbe, James Davies (cyf.), *Yr ymarfer o lonyddwch: i gyfarwyddo Cristion pa fodd i fyw yn llonydd yn y Byd trafferthus hwn* (Caerfyrddin 1730)

Matthew Henry, James Davies (cyf.), *Catechism o'r scrythur, yn nhrefn Gwyr y Gymmanfa* (Mwythig 1717)

William Beveridge, James Davies (cyf.), *Meddylieu neillduol ar grefydd, dosbarthedig mywn deuddeg pwngc; a bwriadeu gweithadwy ffurfiedig arnynt* (Llundain 1717)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733310](https://www.wikidata.org/wiki/Q20733310)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

